



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar**

**Ynystawe Lodge  
Ynystawe  
SA6 5AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2018**

## Cyd-destun

Mae Ynystawe Lodge yn ysgol arbennig annibynnol gyda chartref plant cysylltiedig ym mhentref Ynystawe, ar gyrion dinas Abertawe. Mae'n darparu addysg i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o fod ar y sbectrwm awtistig.

Ar hyn o bryd, mae pump o ddisgyblion rhwng 13 ac 16 oed yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn preswyllo yn y cartref plant ar y safle. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol ym mis Mawrth 2017, mae'r perchnogion wedi penodi pennaeth addysg newydd. Mae hi wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017. Adeg yr ymweliad hwn, roedd rheolwyr yn ystyried newid yng nghofrestriad yr ysgol i gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, yn ogystal ag ar gyfer y rheiny ag anhwylder y sbectrwm awtistig.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn dda. Gwnânt gynnydd addas yn erbyn targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn fwy hyderus ac annibynnol yn eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'n olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn erbyn eu targedau yn y meysydd hyn.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Mae disgyblion yn elwa ar fewnbwn cynorthwydd therapi lleferydd ac iaith sy'n gweithio'n rheolaidd gyda disgyblion ar strategaethau personoledig i gefnogi eu cyfathrebu.

Mae staff yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Mae hyn yn helpu i ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus yn eu dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau cymdeithasol yn y gymuned.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion o'r ymweliad monitro blynyddol.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Mae'r ysgol yn mynd trwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Mae'n adolygu ei darpariaeth a'r categori angen y mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar ei gyfer i gynnwys disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r cynllunio.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi pennaeth addysg newydd ar secondiad am flwyddyn. Caiff y pennaeth addysg ei gynorthwyo gan ymgynghorydd addysg sy'n darparu arweiniad strategol i'r cwmni yn rhan-amser. Mae gan y naill unigolyn a'r llall wybodaeth berthnasol am anghenion arbenigol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r trefniant hwn yn darparu model cynaliadwy ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn darparu canllaw defnyddiol ar gyfer agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau, cynnydd na chyflawniadau disgyblion. Nid yw prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn nodi meysydd pwysig i'w datblygu yn ddigon da. Nid yw gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr.

Mae'r pennaeth addysg newydd wedi dechrau gwneud gwelliannau buddiol i ddarpariaeth yr ysgol, fel meithrin cysylltiadau â phartneriaid lleol i wella cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli yn y gymuned. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r gymuned leol i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion a'u gallu i elwa ar y gymuned. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau annibyniaeth disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd.

Mae gan ddisgyblion dargedau perthnasol ar gyfer llythrennedd, rhifedd, medrau cymdeithasol, targedau personol ac ymddygiad. Mae staff yn adolygu targedau'n rheolaidd ac mae athrawon yn sicrhau eu bod yn ystyried y rhain yn briodol i lywio eu cynllunio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw targedau i wella ymddygiad a medrau cymdeithasol disgyblion yn ddigon penodol i gofnodi eu camau dysgu bach. Nid yw disgyblion yn ymwybodol o'u targedau unigol.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud cais eto i wneud newid perthnasol i adeilad ychwanegol a godwyd ar safle'r ysgol yn ddiweddar.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Cryfhau arweinyddiaeth yr ysgol trwy sefydlu tîm arweinyddiaeth parhaol, gan wella prosesau hunanarfarnu a sicrhau ansawdd

A3 Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth ar gyfer defnyddio'r adeilad ychwanegol sydd eisoes wedi'i godi, ar gyfer yr addasiadau arfaethedig i safle'r ysgol ac ar gyfer newid i'r categori anghenion addysgol arbennig y mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar ei gyfer

A4 Rhoi cynlluniau addas ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn yr ysgol

## **Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol**

### **Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael i raddau helaeth â'r mater cydymffurfio a nodwyd yn yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol. Mae arweinwyr wedi adolygu polisi'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn ymateb yn dda i weithdrefnau ac ymyriadau diogelu. O ganlyniad, mae nifer yr ymyriadau corfforol a'r achosion difrifol wedi gostwng.

### **Argymhelliad 2: Parhau i ddatblygu'r cwricwlwm i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae fframwaith cwricwlwm addas ar waith, sy'n cysylltu'n dda â llwybrau achredu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddilyn cymwysterau perthnasol ar lefel TGAU a lefel mynediad. Caiff amserlenni disgyblion eu gwahaniaethu'n briodol i adlewyrchu diddordebau a lefel gallu disgyblion. Mae athrawon yn ystyried doniau a thargedau disgyblion yn ofalus wrth gynllunio gwersi a chynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon da ar hyn o bryd i hyrwyddo datblygiad ystod lawn medrau disgyblion i fodloni cyrchfannau tymor hir y disgyblion.

### **Argymhelliad 3: Sicrhau ystod o ymyriadau therapiwtig arbenigol i gefnogi lles emosiynol disgyblion a gwella ymddygiad ychydig ddisgyblion mwy cymhleth gydag amser**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o ymyriadau arbenigol, gan gynnwys therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, cwnsela a therapi chwarae. Mae'r rhain yn bodloni anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion presennol yr ysgol yn dda.

### **Argymhelliad 4: Datblygu cyfleoedd i'r holl staff addysg arsylwi arfer orau mewn lleoliadau tebyg eraill**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr ag ystod o ysgolion arbennig a gynhelir. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm fel ei fod yn cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol. Mynychodd staff o'r ysgol ddiwrnod hyfforddiant buddiol yn ddiweddar gyda staff o'r

ysgolion arbennig hyn a gynhelir. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau tebyg ag ysgolion eraill yn y sector arbennig annibynnol eto. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd ar gyfer arloesedd a chreadigrwydd sy'n bosibl yn y sector hwn wrth gynllunio darpariaeth.

## **Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru**

### **Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### **Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### **Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion sy'n amlinellu'r cosbau a fydd yn cael eu mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn [3(2)d]
- cael polisi ysgrifenedig boddhaol ar Gymorth Cyntaf, a'i roi ar waith [3(6)]
- cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau a orfodir ar ddisgyblion am droseddau disgyblu difrifol [3(8)]
- cynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

### **Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol wedi gwneud cais am dystysgrif datgelu a gwahardd briodol a bod y cais wedi cael ei gydlofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Rhan V Deddf yr Heddlu 1997

### **Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### **Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

## Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

### Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

### Gwybodaeth am yr ysgol

<b>Ysgol</b>	Ynystawe Lodge
<b>Rhif yr ysgol</b>	6706025
<b>Diben yr ymweliad</b>	Arolygiad monitro blynyddol
<b>Dyddiad yr ymweliad</b>	07/12/2017
<b>Perchennog</b>	Gerald ac Allison Williams
<b>Staff</b>	1 pennaeth addysg, 1 athro amser llawn, 2 athro rhan-amser, 1 uwch gydlynnydd dysgu. Mae gweithwyr cymorth preswyl yn cynorthwyo disgyblion yn unol â chymarebau disgyblion. Mae ymgynghorydd yn darparu arweiniad strategol ar gyfer addysg am 2 ddiwrnod ym mhob mis calendr.
<b>Nifer y disgyblion</b>	5
<b>Darpariaeth</b>	Preswyl
<b>Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer</b>	Anhwylder y sbectrwm awtistig
<b>Arolygiad Adran 163 diwethaf</b>	Cofnodwch destun
<b>Arolygiad monitro blynyddol diwethaf</b>	06/03/2017
<b>Arolygiad diwethaf gan AGGCC</b>	06/11/2017